Arweiniad at

GYDDWYSIAD AC AWYRU

severn wye

Mae’r arweiniad hwn yn eich tywys trwy bynciau cysylltiedig cyddwysiad ac awyru. Mae’r adran gyntaf yn trafod cyddwysiad a rhai o’i broblemau cysylltiedig. Mae’r ail adran yn bwrw golwg fanylach ar awyru a sut orau y gallwch chi awyru’ch cartref.



Cyddwysiad

Mae cyddwysiad yn digwydd pan fo awyr llaith yn dod i gysylltiad ag wyneb oerach, fel wal, ffenestr neu ddrych, hyd yn oed. Ni all yr awyr ddal y lleithder, felly mae dafnau bychain o ddŵr yn ymddangos. Gall llif awyr cyfyng achosi cyddwysiad hefyd, a dyna pam y gallwch ei weld, weithiau lle mae 'bylchau' bychain, fel y tu cefn i wardrob.

Gall cyddwysiad arwain at leithder, a all arwain, yn ei dro, at lwydni. Mae'r arwyddion yn cynnwys llwydni du (yn aml yng nghorneli ystafelloedd neu'r tu cefn i ddodrefn), pydredd fframiau ffenestri, papur wal yn dod yn rhydd, ac arogl llaith, llwydaidd. Mae lleithder yn achosi amgylchedd annifyr byw ynddo, ond mae'n ddrwg i'ch iechyd, hefyd, yn enwedig i rai sy'n tueddu at alergeddau neu drafferthion anadlu.

Beth sy'n achosi cyddwysiad?

Dyma bedwar prif achos cyddwysiad:

- Cynhyrchu gormod o leithder yn y cartref, fel o goginio, defnyddio cawod neu sychu dillad
- Dim digon o awyru, sy'n golygu na all awyr llaith ddianc
- Dim digon o wresogi, gan nad yw awyr oer yn gallu dal cymaint o anwedd dŵr
- Dim digon o inswleiddio, sy'n golygu na all eiddo gadw digon o wres a'i fod yn debycach o fod â waliau a nenfydau oerion

Ym mha ffyrdd eraill all lleithder dreiddio i'm cartref?

Yn ychwanegol at y pedair prif ffordd y gall cyddwysiad ddatblygu yn eich eiddo, gall dreiddio i'ch cartref mewn sawl ffordd arall.

- Os yw'r to yn gollwng, y cwterydd to yn wedi'u cau neu'u difrodi, neu ffenestri a drysau ddim yn cau'n iawn, gall glaw dreiddio i mewn.
- Gall gollyngiadau dŵr o bibelli, offer diffygiol, neu faddonau a chawodydd sydd ddim wedi'u selio'n gywir gynyddu'n gyflym. Yn aml, gall hyn fod yn anodd ei drin, gan na allwch weld y beiau.
- Gall dŵr daear godi trwy waliau a lloriau os nad yw eich cwrs lleithder yn effeithiol.
- Ychwanegwn leithder i'n cartrefi beunydd heb feddwl amdano. Mae ein hanifeiliaid anwedd a'n planhigion tŷ oll yn cynhyrchu gwlybaniaeth ychwanegol. Mae hyd yn oed anadlu'n ychwanegu at faint o wlybaniaeth sydd yn ein cartrefi!

Sut allaf ymladd cyddwysiad?

Mae dulliau lleihau cyddwysiad sy'n mynd i'r afael â phob un o'r mathau o gyddwysiad a restrir uchod.

Cynhyrchu llai o wlybaniaeth

- Sychwch ddillad y tu mas pryd bynnag y bo modd.
- Os oes gennych daflwr sychu, sicrhewch ei fod wedi'i awyru'n ddigonol.
- Rhowch gaeadau ar sosbenni er mwyn atal gwlybaniaeth gormodol rhag dianc.
- Caewch ddrysau mewnol ceginau ac ystafelloedd ymolchi pan rydych yn coginio neu'n cael cawod, er mwyn cadw'r gormodedd gwlybaniaeth yn un ystafell.
- Os oes gennych ffan echdynnu, trowch e ymlaen wrth goginio, neu agorwch ffenestr i ganiatáu awyru. Yna dylech ddiffodd y ffan (neu gau'r ffenestr) cyn agor drws y gegin. Bydd hyn yn lleihau faint o wres rydych chi'n ei golli.
- Wrth lenwi'r baddon, rhowch ddŵr oer yn gyntaf, yna ychwanegwch ddŵr twym. Mae hyn yn lleihau faint o anwedd rydych chi'n ei gynhyrchu.

Mae gwella awyru'n caniatáu i awyr llaith ddianc

- Agorwch dyllau awyru ffenestri os oes rhywun yn yr ystafell
- Agorwch ffenestri am ychydig funudau sawl gwaith y diwrnod
- Agorwch ffenestri pryd bynnag eu bod nhw wedi'u stemio
- Defnyddiwch ffaniau echdynnu yn eich cegin a'ch ystafell(oedd) ymolchi a sicrhewch bu bod yn gweithio'n effeithiol. Gallwch roi tamaid o bapur tŷ bach dros y ffan i weld a yw'n sugno awyr
- Gadewch fwlch rhwng waliau a dodrefn er mwyn caniatáu i awyr gylchredeg

Twymwch eich cartref fesul dipyn ar y tro

O gofio'r argyfwng ynni presennol, nid oes ar neb eisiau gwastraff arian yn twymo ystafelloedd nad ydynt yn eu defnyddio: ond mae ystafelloedd oer iawn yn llawer tebycach o ddioddef gan leithder a llwydni. Os oes gennych wres canolog, gallech osod falf thermostatig y rheiddiadur ar 1 mewn ystafelloedd nad oes neb yn eu defnyddio, fel y bydd y rheiddiadur yn weddol dwym pan fo'r gwres ymlaen. Onid oes gennych wres canolog, gallech ystyried defnyddio gwresogydd ag amserydd a rheolwr tymheredd. Cofiwch, bydd angen awyru ystafelloedd o bryd i'w gilydd, hyd yn oes os nad yw neb yn eu defnyddio.

Insiwleiddiwch eich cartref ac ataliwch ddrafftiau

Inswleiddio yw allwedd cadw eich cartref yn dwym a sicrhau nad yw gwres gwerthfawr yn dianc. Mae cartrefi cynnes yn llai tebygol o ddioddef gan gyddwysiad, hefyd, felly mae inswleiddio'n bwysig iawn yma, hefyd. Mae inswleiddio'ch croglofft yn bwysig iawn, gan fod gwres yn codi. Argymhellir y dylai fod yna 270mm (tuag un fodfedd ar ddeg) o inswleiddiad yn y groglofft. Dylid atal drafftiau trwy ffenestri a drysau allanol, hefyd. Os oes gennych wydro sengl ac nad oes modd cael gwydro dwbl, dylech ystyried ychwanegu gwydro eilaidd. Golyga hyn osod ail gwarel o wydr y tu cefn i'r un presennol, ar ffrâm ar wahân.

Rhai pethau eraill i'w hystyried

Bydd mannau oerion yn denu gwlybaniaeth. Os oes bwlch yn inswleiddiad eich llofft, er enghraifft, gallai ddenu cyddwysiad ac achosi llwydni. Chwiliwch am fannau oerion lle mae gennych inswleiddiad eisoes, yn ogystal ag o gwmpas drysau a ffenestri.

Os oes gennych ffan echdynnu, sicrhewch ei fod ymlaen wrth i chi goginio neu ddefnyddio'r gawod neu'r baddon. Gadewch dyllau awyru eich ffenestri yn agored a sicrhewch nad yw tyllau awyru eraill wedi'u cau.

Os oes gennych fannau trafferthus, fel cornel ystafell wely y tu cefn i'ch wardrob, ystyriwch ragor o awyru. Twll awyru allanol ychwanegol, er enghraifft, neu ffan echdynnu gryfach mewn ystafell ymolchi arbennig o laith.

Gallwch ddal diferion cyddwysiad yn gollwng o ffenestri â rhigolau cyddwysiad a stribedi sbwng. Mae'r atebion syml hyn ar gael o siopau deunyddiau adeiladu.

Os sylwch ar gyddwysiad yn crynhoi ar eich ffenestri a silffoedd ffenestri, gallwch eu sychu yn ystod y bore. Bydd hyn yn atal gormod o wlybaniaeth rhag sefyll yn yr ystafell ac achosi rhagor o broblemau, fel lleithder neu lwydni.

Os yw'r sefyllfa'n wael, gallech ystyried prynu dadleithydd. Bydd o gymorth i leihau faint o wlybaniaeth sydd yn yr awyr, ond maent yn ddrud i'w prynu, a gall rhai mawrion ddefnyddio llawer o drydan.

Os oes gennych lwydni eisoes, mae modd delio ag ef

Os yw cyddwysiad yn achosi problemau i chi eisoes, a bod llwydni'n tyfu yn eich cartref, mae'n bwysig cael gwared arno. Dechrau da fyddai glanhau'r llwydni ymaith gan ddefnyddio chwistrell sy'n cynnwys cannydd. Bydd o gymorth i ddelio a'r staeniau y gall llwydni ei adael ar eich waliau. O wneud hyn, gadewch y man i sychu dros nos, yna chwistrellwch eto gyda sylwedd gwrth-ffwng, a chaniatewch i hwnnw sychu. Sicrhewch eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio sylweddau o'r fath: gallant fod yn niweidiol. Ystyriwch wisgo mwgwd wrth chwistrellu. O wneud hyn, gallech feddwl am drin y man a effeithiwyd â phaent gwrth-ffwng: gallwch ei brynu yn y mwyafrif o siopau deunyddiau adeiladu.

Dwi wedi rhoi cynnig ar bopeth ond mae fy eiddo yn llaith o hyd

Os nad yw dim yr ydym wedi'i awgrymu o gymorth gyda'ch problem lleithder, efallai nad cyddwysiad sy'n ei achosi. Mae achosion eraill, a'r mwyaf cyffredin yw:

Lleithder treiddiol

Lleithder wedi'i achosi gan wlybaniaeth yn dod i mewn i'r tŷ trwy bibellau sy'n gollwng, difrod to, cwteri to wedi'u cau, bylchau ogylch fframiau ffenestri, a rendr neu waith brics diffygiol neu wedi'i gracio. Dylai delio â'r problemau adeiladwaith hyn atal y math hwn o leithder.

Lleithder codi

Digwydd hyn pan fo'r cwrs lleithder (yr haen amddiffynnol sy'n atal lleithder rhag symud o'r ddaear i mewn i'r eiddo) un ai'n ddiffygiol neu heb ei osod o gwbl. Bydd hyn yn gadael marc llanw o leithder tua medr uwch y llawr y tu mewn i'ch cartref. Os oes genych leithder codi, bydd angen i arbenigwr proffesiynol cymwys ei drin.

Awyru

Yn syml, awyru yw dod ag awyr allanol i mewn i'r cartref yn fwriadol er mwyn cael awyr iach, cael gwared ar lygryddion a rheolo'r tymheredd y tu mewn. Mae hyn yn wahanol i ymdreiddiad awyr, sydd ddim yn fwriadol ac sy'n golygu drafftiau y byddwch yn eu teimlo'n fannau oerion yn y cartref.

Mae awyru'ch cartref yn drwyadl yn sicrhau ansawdd awyr da y tu mewn, trwy gael gwared ar lygryddion a all niweidio, fel alergenau, nwyon coginio, a chemegolion fel y rhai sydd mewn paentiau, carpedi ac eitemau eraill yn y cartref.

Fel y gwyddom eisoes, awyru yw allwedd mynd i'r afael â chyddwysiad

Mae awyru'n rhan hanfodol o reoli faint o wlybaniaeth sydd yn eich cartref. Mae gwlybaniaeth yn y cartref bron wastad wedi'i achosi gan weithgareddau dynol fel cael cawodydd, coginio, sychu dillad ac anadlu. Gall ddŵr ddod i mewn i gartref trwy ddeunyddiau'r adeilad, hefyd. Pan ddaw i gyswllt ag wynebau oerion, mae'r dŵr yn yr awyr yn ffurfio diferion, sef cyddwysiad. Fel y dywedwyd uchod, gall cyddwysiad arwain at broblemau fel llwydni du, sy'n niweidiol i'n hysgyfaint. Gydag amser, gall gwlybaniaeth a chyddwysiad ddifrodi eich eiddo, gan bydru pren ac anffurfio plastr.

Mesurir faint o wlybaniaeth sydd yn yr awyr gan 'leithder cymharol'. Mae'n disgrifio faint o anwedd dŵr sydd yn yr awyr yn ôl canran. Mae tymheredd yr awyr yn effeithio arno, oherwydd gall awyr twym ddal rhagor o ddŵr nag awyr oer. Yn ddelfrydol, dylai'r lleithder cymharol y tu mewn fod rhwng 40% a 60%.

Gall awyru atal eich eiddo rhag mynd yn rhy dwym, hefyd. Mae hyn yn debycach o ddigwydd os ydych yn byw mewn dinas, ar lawr uchaf adeilad, neu dŷ sydd wedi'i inswleiddio'n dda ond ei awyru'n wael. Mae gordwymo'n dod yn broblem gynyddol ple bynnag rydych yn byw, fodd bynnag, oherwydd effeithiau newid yn yr hinsawdd.

A oes angen awyru pob ystafell yn yr un ffordd?

Wrth inni wneud ein cartrefi'n fwyfwy ynni-effeithlon, rydym yn eu selio hefyd, sy'n lleihau awyru. Efallai na feddyliech chi amdano fel hyn, ond mae atal drafftiau, ychwanegu inswleiddiad a defnyddio deunyddiau adeiladu llai anadladwy yn selio eich cartref, i bob diben. Mae ar bob adeilad angen awyru, boed hwy'n 200 mlwydd oed neu'n newydd sbon danlli.

Mae awyru'n angenrheidiol ym mhob ystafell, ond rhai'n fwy nag eraill. Bydd ar fannau llaith iawn fel ceginau ac ystafelloedd ymolchi angen rhagor o awyru. Bydd cael gwared ar leithder wrth ei gynhyrchu (gan ddefnyddio ffaniau echdynnu ac agor ffenestri) yn ei atal rhag ymledu i rannau eraill eich cartref ac achosi cyddwysiad.

Gellir awyru ystafelloedd sydd â llai o wlybaniaeth yn yr awyr, fel llofftydd ac ystafelloedd byw, yn rhwydd trwy gadw tyllau awyru'r ffenestri ar agor ac agor ffenestri a drysau pan fo angen. Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, fod gan bob cartref rai mannau lle nad yw awyr yn llifo, a lle gall gwlybaniaeth grynhoi. Sicrhewch fod bwlch rhwng eich dodrefn a'r wal i adael i awyr lifo o gwmpas, neu agorwch dyllau awyru i gypyrddau a wardrobau. Osgowch eu gorlenwi â dillad, hefyd, os gallwch!

Os ydych yn twymo'ch cartref gan ddefnyddio gwresogydd nwy neu danwydd soled, bydd arnoch angen rhagor o awyru. Bydd un ai porthiant awyr uniongyrchol neu fric awyr yn y wal allanol o gymorth i atal monocsid carbon rhag crynhoi. Os ydych yn defnyddio gwresogyddion o'r fath, dylech osod larwm monocsid carbon.

Ai dim ond agor ffenestri a drysau yw awyru?

Mae llawer o wahanol ffurfiau systemau awyru, ac y maent yn amrywiol eu maint a'u cynllun.

Awyru naturiol

Nid syndod yw mai ffordd rwyddaf awyru'ch cartref yw agor y ffenestri. Efallai ei fod yn amlwg, ond hawdd anghofio, yn enwedig os yw'n bwrw neu'n oer y tu fas. Os ydych yn gadael eich ffenestri ar agor yn rhy hir (yn enwedig ar dywydd oer), gellir colli gormod o wres a denu lladron, felly mae'n bwysig cadw golwg ar ba ffenestri sydd ar agor, ac am ba hyd.

Systemau awyru goddefol

Golyga ‘goddefol’ system sy’n gwneud y gwaith yn y cefndir. Mae nodweddion fel tyllau awyru neu friciau awyru wedi’u hadeiladu i mewn, ac yn defnyddio gwahaniaethau pwysedd rhwng y tu mewn a’r tu mas i orfodi hen awyr mas a thynnu awyr newydd i mewn. Golyga hyn nad ydynt mor effeithiol ar ddiwrnodau heb wynt, ac y mae eu dull ‘goddefol’ yn golygu y gall nad ydynt yn awyru digon ar adeiladau sydd wedi’u selio’n dyn.

Echdynnu ysbeidiol

Dyma’r math o ffan echdynnu a gewch yn aml mewn ystafell ymolchi neu gegin, wedi’i reoli gan swîts golau, amserydd neu synhwyrydd. Maent yn ateb cymharol rad a rhwydd, ond nid wastad yn ddigon ar gyfer eiddo sydd wedi’i selio’n dyn neu rai lle mae peth wmbredd o leithder.

Awyru mewnbwn cadarnhaol (AMC)

Golyga’r dull hwn fod ffan wastad yn tynnu awyr o’r tu mas i mewn i’r cartref. Mae hyn yn gwthio’r hen awyr mas trwy dyllau awyru a deunyddiau’r adeilad ei hun. Mae’n ateb rhwydd, ond yn ddrud ei gynnal, fel arfer, a gall gwthio awyr oer i mewn i ystafelloedd fod yn anghysurus.

Awyru echdynnu mecanyddol (AEM)

Mae systemau AEM canolog yn defnyddio un uned ffan sy’n gweithio’n barhaus i dynnu awyr o ystafelloedd. Gellir eu rheoli’n rhannol gan synhwyrydd lleithder. Mae’r ffan unigol, ar wahân yn lleihau drafftiau i’r eithaf, ac yn lleihau defnyddio ynni. Nid yw hwn, fodd bynnag, yn ddewis rhwydd, gan fod y systemau’n gymhleth ac yn ddrud i’w gosod. Mae arnynt angen digon o le ar gyfer pibellau cludo, hefyd.

Awyru mecanyddol gydag adennill gwres (AMAG)
Mae'r systemau hyn yn gweithredu'n debyg i systemau AEM, ond mae'r awyr a dynnir yn cael ei wthio trwy gyfnewidydd gwres hefyd, sy'n twymo'r awyr iach sy'n dod i mewn. Mae hyn yn fwy effeithlon a chyffyrddus, gan fod yr awyr sy'n dod i mewn i'r cartref yn dwym, nid yn oer. Fel gyda systemau AEM, fodd bynnag, mae hwn yn ateb cymhleth sydd ag angen rhagor o gynnal a chadw, fel newid yr hidlyddion yn rheolaidd. Ceir systemau AMAG, fel arfer, mewn cartrefi newydd neu rai lle bu ôl-osod trwyadl. Mae systemau datganoledig sy'n defnyddio sawl ffan gyda chyfnewidyddion gwres unigol ar gael, hefyd.

Rhai pethau eraill i'w hystyried

Sicrhau bod eich ffaniau echdynnu presennol yn gweithio'n iawn. Glanhewch yr hidlyddion, os oes angen, ac edrychwch a allwch newid yr amserydd fel eu bod yn tynnu am ragor o amser.

Wrth i chi addurno neu brynu dodrefn newydd, chwiliwch am rai sydd heb lawer o 'gyfansoddion organig anweddol'. Bydd hyn o gymorth i well ansawdd yr awyr, gan y bydd llai o lygryddion tymor hir y tu mewn i'ch cartref.

Ataliwch wlybaniaeth o'r dechrau un, trwy sychu dillad y tu mas (pryd bynnag y bo modd) a chadw caeadau ar eich sosbenni wrth goginio.

Os oes gennych friciau awyru yn eich waliau, sicrhewch nad ydych yn eu gorchuddio. Cadwch dyllau awyru ar agor gydol yr amser.

Os ydych yn pryderu y gall eich cartref fod yn rhy wlyb neu'n rhy sych, gallwch ddefnyddio rhywbeth a elwir yn hydromedr i fesur tymheredd yr awyr a lleithder cymharol.

Os oes gennych ffan echdynnu tros eich man coginio, edrychwch a yw'n gwthio awyr mas o'r gegin ynteu dim ond yn ei symud lan i'r nenfwd, lle mae'n aros yn yr ystafell. Dylech fwrw golwg ar yr hidlydd, hefyd, a'i lanhau pan fo angen.

Mae'r arweiniad hwn yn eich tywys trwy bynciau cysylltiedig cyddwysiad ac awyru. Mae'r adran gyntaf yn trafod cyddwysiad a rhai o'i broblemau cysylltiedig. Mae'r ail adran yn bwrw golwg fanylach ar awyru a sut orau y gallwch chi awyru'ch cartref.

01452 835060

severnwye.org.uk

@Severn_Wye

severn wye

Mae Asiantaeth Ynni Severn Wye yn gwmni di-elw (rhif 03830608) ac elusen gofrestredig (rhif 1083812) sy'n gweithredu'n bennaf ledled Cymru a'r siroedd ar y gororau yn Lloegr, gan gefnogi cymunedau, trigolion a busnesau i greu dyfodol carbon isel cynaliadwy, fforddiadwy.

Hawlfraint © 2022 Asiantaeth Ynni Severn Wye